



# Bwletin TGAU 2015 / PISA

## Cyflwyniad

Fel paratoad ar gyfer y TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg a Mathemateg ym mis Medi 2015 (a Gwyddoniaeth yn 2016), rhoddodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r pedwar Consortia rhanbarthol wneud cais am gyllid; roedd cais GwE yn llwyddiannus a chafodd cyllid ei gadarnhau am flynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16.

Hwn yw pumed bwletin 'TGAU 2015 / PISA' GwE, a'r bwriad yw gadael i ysgolion wybod beth yw'r datblygiadau hyd yma, datblygiadau'r dyfodol o ran prosiect 'TGAU 2015 / PISA' ynghyd â datblygiadau cysylltiedig eraill.

## Datblygiadau Hyd Yma

'Ysgolion Arweiniol' y rhanbarth yn y pedwar pwnc craidd yw:

- **Saesneg: Ysgol Bryn Elian** (Ymarferwr Arweiniol: **Louise Wallace**)
- **Mathemateg: Ysgol Eirias** (Ymarferwr Arweiniol: **Zoe Evans**)
- **Cymraeg: Clwstwr Gwynedd (Ysgol Botwnnog/Ysgol Tryfan/Ysgol Dyffryn Ogwen)**  
(Ymarferwyr Arweiniol: **Tegwen Llwyd / Esyllt Maelor / Cheryl Roberts / Jeni Lyn Morris / Dafydd Roberts**)
- **Gwyddoniaeth: Ysgol yr Alun** (Ymarferwr Arweiniol: **Andy Rees**)

Er sicrhau bod deunyddiau Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys dimensiwn Cymreig, mae Ysgol Glan Clwyd yn gweithio gydag Ysgol Eirias o ran Mathemateg, tra bo ysgolion Môn yn gweithio gydag Ysgol Alun o ran Gwyddoniaeth.

Mae gweithdai ‘cam’ dau ar gyfer Cymraeg TGAU yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf a chynhaliwyd rhai ar gyfer Saesneg ym mis Mehefin. Roedd yr adborth a gafwyd, unwaith eto, yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod y tymor, bu ‘Ymarferwyr Arweiniol’ ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth yn mynychu ‘Cyfarfodydd Fforwm Mathemateg / Gwyddoniaeth’ gyda nifer o’r Awdurdodau Lleol.

## Adnoddau

### 1. TGAU 2015:

- **GwE:**

Mae’r holl adnoddau / deunyddiau enghreifftiol a gynhyrchwyd gan yr ‘Ysgolion Arweiniol’ ar gael ar wefan GwE:

<http://www.gwegogledd.cymru/cy>

I weld yr adnoddau, ‘cliciwch’ ar: ‘TGAU’ (rhaid ichi gael **‘Enw Defnyddiwr’** a **‘Chyfrinair’** i fynd i mewn i’r wefan – rhoddwyd y rhain i bob ysgol [Penaethiaid a Phenaethiaid Cymraeg / Saesneg / Mathemateg / Gwyddoniaeth] – sylwer: mae’r wefan yn cael ei datblygu’n barhaus, felly mae rhai rhannau nad ydynt wedi cael eu “llenwi” eto; hefyd, gan mai ond newydd ddod i law y mae’r manylebau Gwyddoniaeth, mae’r rhan hon wrthi’n cael ei datblygu)

- **Hwb:**

<https://hwb.wales.gov.uk/Resources>

- **CBAC:**

<http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/SearchResources.aspx>

- **BBC:**

<http://www.bbc.co.uk/education/levels/z8w76sg>

### 2. Bagloriaeth Cymru:

- **GwE:**

Mae’r holl adnoddau / deunyddiau a gynhyrchwyd gan ‘Ymarferwyr Arweiniol’ Bagloriaeth Cymru a’r Gweithgorau ar gael ar wefan GwE:

<http://www.gwegogledd.cymru/cy>

I weld yr adnoddau, 'cliciwch' ar: '**Bagloriaeth Cymru**' (rhaid ichi gael '**Enw Defnyddiwr**' a '**Chyfrinair**' i fynd i mewn i'r wefan – rhoddwyd y rhain i bob ysgol [Penaethiaid a Chydgysylltwyr Bagloriaeth Cymru] – sylwer: mae'r wefan yn cael ei datblygu'n barhaus)

- **Consortia EAS / CSC:**  
<http://www.sewales.org.uk/WelshBaccalaureate.aspx?lang=cy-gb>
- **Consortiwm ERW:**  
<https://www.dropbox.com/sh/75l80heac3eedbm/AABfPCfSvWmdlMN4Sw9sR8Ova?oref=w>
- **Sustrans** (adnoddau i gefnogi'r 'Her Dinasyddiaeth Fyd-eang'):  
<http://www.sustrans.org.uk/cy/wales/amdanon-ni/addysg-phobl-ifanc-yng-nghymru/adnoddau-cwricwlwm>
- **Hwb:**  
<https://hwb.wales.gov.uk/Resources>
- **CBAC:**  
<http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/SearchResources.aspx>
- **BBC:**  
<http://www.bbc.co.uk/education/levels/z8w76sg>

## Datblygiadau i'r Dyfodol

Yn ystod 2015-16, bydd yr 'Ysgolion Arweiniol':

- Yn parhau i gynhyrchu adnoddau / deunyddiau enghreifftiol
- Yn sicrhau bod adnoddau / deunyddiau'n cael eu llwytho i fyny i wefan GwE
- Yn cynnal 'gweithdai' pellach (caiff dyddiadau'r gweithdai eu cadarnhau ym mis Medi)
- Ar gael i gefnogi ysgolion unigol / clystyrau o ysgolion
- Yn mynychu fforymau pynciau ALL.

Y gobaith ydy y bydd fforymau ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Bagloriaeth Cymru wedi'u ffurfio ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol. Y nod yw bod y fforymau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod datblygiadau, rhannu arferion da, datblygu a rhannu adnoddau a'u bod yn 'hunan-gynhaliol' ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

## Datblygiadau Eraill

### 1) Bagloriaeth Cymru:

Mae GwE yn cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd ym mis Medi 2015 ac mae'r cymorth hwn yn cynnwys y canlynol:

- Bu pedwar 'Ymarferydd Arweiniol' yn arwain y gwaith datblygol
  - **Hywel Parry: Ysgol John Bright**
  - **Gwenno Jarvis: Ysgol Dyffryn Conwy**
  - **Catherine Jones: Ysgol Glan Clwyd**
  - **Gill Ovens: John Summers High School**
- Ffurfiwyd pedwar gweithgor i ddatblygu adnoddau/deunyddiau enghreifftiol ar gyfer y 3 'Her': Her y Gymuned / Her Dinasyddiaeth Fyd-eang / Her Menter a Chyflogadwyedd a'r Prosiect Unigol.
- Mae'r grŵp adnoddau wedi canfod adnoddau addas sy'n bodoli eisoes ar y we i'w defnyddio ar gyfer datblygu sgiliau.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol ar 15<sup>fed</sup> Mai, 2015 i ddsbarthu'r deunyddiau/adnoddau a gynhyrchwyd gan y gweithgorau. Cafwyd presenoldeb gwych yn y Gynhadledd:

<b>Nifer yr ysgolion uwchradd yn y Rhanbarth = 55</b>	<b>Cynhadledd Bagloriaeth Cymru</b>
Nifer yr ysgolion mynychu y Gynhadledd:	54 (98%)
Nifer yn bresennol: <small>(gan gynnwys cynrychiolwyr o Golegau, CBAC ac ysgolion o'r tu allan i'r rhanbarth)</small>	102

Dengys dadansoddiad o'r ffurflenni gwerthuso bod o leiaf 69% (ac ar gyfer y rhan fwyaf o'r datganiadau, fod 93% neu ragor) o'r cynadleddwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiadau canlynol:

<b>% y cynadleddwyr a oedd yn cytuno/yn cytuno'n gryf gyda'r datganiadau isod ar gyfer pob gweithdy pwnc:</b>	<b>Cynhadledd Bagloriaeth Cymru</b>
Roedd amcanion yr hyfforddiant yn glir	96%
Anogwyd cymryd rhan a rhyngweithio	69%
Roedd y pynciau a'r testunau dan sylw yn berthnasol i mi	100%
Roedd y cynnwys yn drefnus ac yn hawdd ei ddilyn	87%
Roedd y deunyddiau a ddsbarthwyd yn ddefnyddiol	93%
Bydd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol yn fy ngwaith	100%
Roedd yr hyfforddwr yn wybodus am bynciau'r hyfforddiant	95%
Roedd yr hyfforddwr wedi paratoi yn dda	93%
Bodlonwyd amcanion yr hyfforddiant	100%

- Mae'r holl adnoddau / deunyddiau gan 'Ymarferwyr Arweiniol' Bagloriaeth Cymru a'r Gweithgorau ar gael ar wefan GwE (gweler uchod).
- Mae Gwenno Jarvis (Ysgol Dyffryn Conwy) wedi cael ei phenodi ar secondiad rhan amser am ddau dymor (tymor yr hydref a'r gwanwyn, 2015-16) i helpu Ysgolion i weithredu'r Fagloriaeth Cymru ddiwygiedig o fis Medi 2015 ymlaen.

## 2) Cam 1 gweithredu'r adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu:

Mae GwE yn helpu ysgolion yn y rhanbarth i baratoi ar gyfer gweithredu Cam 1 o'r Rhaglenni Astudio Diwygiedig, a fydd yn statudol ym mis Medi 2015. Yr 'Ymarferwyr Arweiniol' ydy:

- **Cymraeg/Saesneg/Llythrennedd: Elan Davies, Ysgol Dyffryn Conwy**
- **Mathemateg/Rhifedd: Gemma Hawkins Ysgol John Bright**

Yn ystod y tymor hwn mae digwyddiadau ar Raglenni Astudio diwygiedig CA3 ar gyfer Saesneg a Chymraeg Iaith Gyntaf wedi'u hailadrodd. Bydd digwyddiad Raglenni Astudio diwygiedig Mathemateg CA3 yn cael ei drefnu ar gyfer tymor yr hydref, 2015-16.

Mae ail ddigwyddiadau dilynol ar gyfer Raglenni Astudio diwygiedig CA3 mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yn cael eu trefnu ar gyfer tymor yr hydref 2015-16; hefyd, caiff y digwyddiad hyfforddiant Llythrennedd ei ailadrodd ar gyfer Cydgysylltwyr Llythrennedd sy'n newydd yn eu swydd.

## 3) Cwestiynau arddull PISA:

Mae naw deg o gwestiynau arddull PISA mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a darllen, wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru, ar gael ar 'Hwb' i fyfyrwyr ac athrawon roi cynnig arnynt. Dim ond ar gyfrifiadur y mae'r cwestiynau hyn ar gael. I ddefnyddio'r cwestiynau hyn, ewch i wefan 'Hwb':

<https://hwb.wales.gov.uk/Pages/PISA>

## 4) Astudiaeth PISA

Mae'r 6<sup>ed</sup> Astudiaeth PISA i fod i ddigwydd ym mis Tachwedd 2015. Mae'r OECD wedi dewis sampl gynrychioliadol o ysgolion o bob cwr o Gymru ac maent wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr Astudiaeth gan RM, a fydd yn gweinyddu'r brif Astudiaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae cysylltiad clir i'w gael rhwng sylfaen sgiliau'r boblogaeth ac iechyd economaidd gwlad. Mae cost sylfaen sgiliau isel yn sylweddol, mewn termau economaidd. Gall cost sgiliau isel i unigolyn fod yn aruthrol. Mae'n hanfodol bod ein disgyblion yn cael yn y dosbarth sgiliau sy'n trosi i'r gweithle ac i fywyd. Mae angen i arweinyddion ysgolion, athrawon, a staff cymorth ddeall pa mor bwysig ydyw i'n pobl ifanc i gyd gael y sgiliau hyn.

Dyma'r sgiliau sy'n cael eu profi yn PISA. Dyma'r sgiliau hefyd sy'n cael eu profi yn y TGAU newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg o fis Medi 2015 ymlaen, a Gwyddoniaeth o fis Medi 2016 ymlaen.

Mae PISA nid yn unig yn fesur o sut mae ein system addysg yn cyflawni, ond mae'n un sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang. Mae gan ysgolion dasg sylfaenol o baratoi eu disgyblion ar gyfer bywyd gwaith. Mae pa mor dda, a theg, y mae gwlad yn addysgu ei phobl wedi bod yn feincnod ers tro i sut mae'r byd yn ystyried y gymdeithas honno. Mae profion, fel PISA, yn darparu data caled ar y meincnod hwnnw. Maent yn mesur i ba raddau'r ydym ni, fel system, yn paratoi disgyblion gyda'r sgiliau maent eu hangen i fyw'r bywydau gorau posibl. Maent yn ein herio i wneud yn well i'r bobl ifanc sy'n rhoi eu hymddiriedaeth ynom.

Yn sylfaenol i ddisgyblion allu dangos y sgiliau y maent wedi'u meithrin y mae cymhwysedd mewn llythrennedd a rhifedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r ffocws ar lythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, mae hyn yn holl bwysig i alluogi disgyblion i ateb cwestiynau arddull PISA, a'r TGAU newydd. Mae'n holl bwysig i'w dysgu i'r dyfodol a datblygiad eu gyrfa ac mae'n hanfodol bod ysgolion yn manteisio i'r eithaf ar y amrywiol gymorth sydd ar gael i sicrhau bod eu disgyblion i gyd yn symud ymlaen o addysg orfodol wedi'u paratoi ar gyfer bywyd yn y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn.

Mae'r TGAU newydd a PISA hefyd yn profi dealltwriaeth benodol mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau. Mae asesiadau blaenorol PISA wedi dangos bod Cymru ar ei hôl hi. Rydym, er enghraifft, wedi gweld dirywiad cyson yn lefelau llythrennedd gwyddonol ein disgyblion, ochr yn ochr â chynnydd amlwg yn y nifer sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol penodol. Bydd y newidiadau mewn mesurau perfformiad a'r TGAU yn rhoi sylw i hyn. Mae angen i ysgolion wneud popeth posibl i sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar y lefel o lythrennedd gwyddonol sy'n angenrheidiol i oroesi a ffynnu mewn byd sy'n cael ei ysgogi fwyfwy gan wyddoniaeth a thechnoleg.

## 5) IRIS

Fel rhan o'r 'prosiect TGAU 2015 / PISA', mae GwE wedi prynu 'IRIS connect' ar gyfer deuddeg o ysgolion uwchradd ledled Gogledd Cymru. Mae 'IRIS Connect' hefyd wedi cael ei brynu ar gyfer chwe ysgol gynradd ar draws y rhanbarth (pob un wedi'i lleoli yn nalgylch un o'r Ysgolion Uwchradd sy'n cael 'IRIS'). Y bwriad yw i athrawon ddefnyddio 'IRIS' i fyfyrion ar eu haddysgu, gwella addysgu a dysgu, a rhannu arferion da.

## Dyddiadau i'ch Dyddiadur

- **Gweithdai prosiect TGAU 2015 /PISA:**  
Caiff dyddiadau'r gweithdai eu cadarnhau ym mis Medi.
- **Digwyddiadau Rhaglenni Astudio diwygiedig CA3:**  
Caiff dyddiadau'r gweithdai eu cadarnhau ym mis Medi.
- **Digwyddiadau TGAU CBAC:**  
Er mwyn cefnogi cyflwyno'r TGAU diwygiedig mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth:

CBAC			
Pwnc:	Digwyddiad:	Lleoliad:	Dyddiad:
Cymraeg	Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg	Llandudno	20.10.15
Saesneg	Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg	Yr Wyddgrug Bangor	10.11.15 11.11.15
Mathemateg	Mathemateg	Llandudno	27.11.15
Gwyddoniaeth	Sesiwn Briffio	Yr Wyddgrug Caernarfon	11.11.15 12.11.15
	Paratoi at Addysgu	Yr Wyddgrug Caernarfon	9.3.16 10.3.16

Er mwyn cofrestru ar gyfer y digwyddiadau hyn

[http://www.cbac.co.uk/teachers/?language\\_id=2](http://www.cbac.co.uk/teachers/?language_id=2)

I gael rhagor o fanylion am wybodaeth a geir yn y bwletin hwn, cysylltwch â:

Peter Maddocks, Uwch Ymgynghorydd Her  
GwE, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL  
0300 500 8087 / 07810813325  
[petermaddocks@gwe.org.uk](mailto:petermaddocks@gwe.org.uk)